*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Llanfair-ym-muallt (IDH)

## Dyddiad yr arolygiad: 5 Chwefror 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | ***Rhaid gwella'r neges ar y peiriant ateb ffôn y tu allan i oriau er mwyn rhoi'r wybodaeth allweddol ynglŷn ag oriau agor a chyfarwyddyd y tu allan i oriau i gleifion.*** | Nid yw'n bosibl newid y neges oherwydd bod nam ar y system. Bydd system ffôn newydd yn cael ei gosod ar ddydd Iau 5 Tachwedd 2015 | Rheolwr y Practis Corryne | |
| | ***Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn darparu ac yn arddangos gwybodaeth allweddol yn glir i gleifion ynglŷn â gwybodaeth gyswllt gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau, a sut i wneud cwyn.*** | Mae'r wybodaeth ynglŷn â sut i gysylltu y tu allan i oriau'n cael ei dangos ar hysbysfwrdd y cleifion, y tu ôl i ddesg y dderbynfa a thu allan i'r drws ffrynt. | Rheolwr y Practis Corryne | Yn syth – wedi'i gwblhau |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ***Rhaid adolygu a diwygio'r weithdrefn gwyno er mwyn cyd-fynd ag egwyddorion 'Gweithio i Wella', a chanllawiau sydd ar waith yng Nghymru.*** | Mae poster sy'n dangos gwybodaeth am sut i gwyno ar yr hysbysfwrdd. Mae'r busnes yn addasu'r poster cwynion ar hyn o bryd er mwyn gwneud y wybodaeth yn fwy gweladwy. | Rheolwr y Practis Corryne<br>Tîm Cymorth Cleifion | Wedi'i gwblhau |
| | ***Rhaid i IDH sicrhau bod systemau sefydlog ar waith er mwyn gofyn am adborth cleifion yn rheolaidd.Hefyd, rhaid i IDH sicrhau bod gan reolwyr practis eu hunain yr awdurdod i gynnal arolygiadau adborth o'r fath, os nad yw hyn yn bolisi gan y cwmni eisoes.*** | Mae ffurflenni adborth ar gael i gleifion yn y dderbynfa<br>Rydym hefyd yn gofyn am adborth gan gleifion trwy negeseuon SMS – gall y rheolwr weld ac adolygu'r wybodaeth hon ar unrhyw adeg er mwyn ei rhannu â'r tîm.<br>Mae'r rheolwyr ar gael ar unrhyw adeg i gynnal arolwg cleifion yn lleol os bydd problemau'n codi. Gallant ofyn am gymorth gan y tîm cymorth cleifion i gynhyrchu hwn | Rheolwr y Practis Corryne | Wedi'i gwblhau |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| | ***Rhaid gwella manylder a safon cadw cofnodion mewn perthynas â sganiau pelydr-X.Rhaid cyflwyno system er mwyn sicrhau ansawdd cyffredinol yr holl sganiau pelydr-X a wneir yn y practis.*** | Mae'r clinigwyr yn cofnodi'r sganiau pelydr-X mewn nodiadau clinigol – yn dilyn yr arolygiad hwn bu i'r Rheolwr Cymorth Clinigol ymweld â'r practis a chwrdd â'r deintyddion i drafod cadw cofnodion a sicrhau ansawdd sganiau pelydr-X<br>Mae Archwiliad Radiograffeg wedi cael ei | Rheolwr y Practis<br>Rheolwr Cymorth Clinigol | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gwblhau yn awr ac mae cynlluniau gweithredu clir ar waith. | | |
| | ***Dylid nodi'n glir y mannau yn yr ystafell ddadheintio ar gyfer prosesu ac ymdrin ag offerynnau 'glân' a'r mannau ar gyfer prosesu ac ymdrin ag offerynnau 'budr'.*** | Mae'r ystafell ddadheintio wedi cael ei rhannu'n ddau barth er mwyn gallu gwahanu parthau glân/budr | Rheolwr y Practis Corryne / Staff nyrsio | Wedi'i gwblhau |
| | ***Rhaid arddangos protocolau dadheintio mewn lle amlwg yn y mannau perthnasol.Rhaid cynnal cofnodion o'r holl hyfforddiant mewnol/negeseuon atgoffa mae staff yn eu derbyn mewn perthynas â gweithdrefnau dadheintio.*** | Mae poster a Ffolderi Croes-heintio sy'n cynnwys yr holl bolisïau sydd ar gael ar gyfer yr ardaloedd dadheintio gyda phrotocolau a phrosesau y bydd yr holl staff yn eu darllen a'u llofnodi. Mae Llawlyfr Rheoli Heintiau newydd ar y safle sy'n benodol i'r practis.<br><br>Mae hyfforddiant croes-heintio ar gael i staff trwy system rheoli dysgu'r cwmni<br><br>Mae staff newydd yn y practis ers yr arolygiad Bydd Rheolwr y Practis yn sicrhau bod cofnodion o hyfforddiant mewnol ar weithdrefnau dadheintio yn cael eu cynhyrchu a'u cadw. Bydd y Rheolwr Ardal yn rhoi cymorth i gyflenwi'r hyfforddiant hwn | Rheolwr Datblygu'r Ardal i anfon rhestr o'r hyn sydd ei angen at reolwr y practis<br><br>Rheolwr Datblygu'r Ardal | I'w gwblhau<br>20/11/2015<br><br>I'w gwblhau<br>20/11/2015 |
| | ***Yn ystod gweithdrefnau lle y gall hylifau dasgu, dylid gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn, gan gynnwys ffedogau plastig untro.*** | Mae'r ffedogau ar gael ac mae'r holl gyfarpar diogelu personol ar gael i'r nyrsys ei ddefnyddio. Bydd staff newydd yn llofnodi adran cyfarpar diogelu personol y Llawlyfr Heintiau er mwyn | Rheolwr y Practis/Staff nyrsio | I'w gwblhau erbyn 20/11/2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | sicrhau eu bod yn gyfarwydd â hyn | | |
| | ***Rhaid rhoi bin y codir ei gaead â phedal troed yn lle'r un sydd wedi torri yn yr ystafell ddadheintio.*** | Mae bin y codir ei gaead â phedal troed wedi cymryd lle'r bin sydd wedi torri | Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| | ***Rhaid datblygu protocol clir i sicrhau bod gwasgiadau deintyddol yn cael eu glanhau'n ddigonol a rhaid hyfforddi staff i ddilyn y broses hon.*** | Mae'r staff yn ymwybodol o'r broses ar gyfer dadheintio gwasgiadau deintyddol<br>Mae'r manylion ar gael yn y Llawlyfr Heintiau y dylai pob aelod o staff ei ddarllen a'i lofnodi | Rheolwr y Practis/ Staff nyrsio | I'w gwblhau erbyn 20/11/2015 |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | ***Dylid tacluso a diweddaru ffeiliau staff.*** | Dylai'r rheolwr sicrhau bod  holl ffeiliau'r staff yn cael eu hadolygu a'u cadw'n gyfredol gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol/ofynnol trwy ddefnyddio rhestr cynnwys ffeiliau staff y cwmni | Rheolwr y Practis | I'w gwblhau erbyn 20/11/2015 |
| | ***Dylid anfon tystysgrif sy'n cadarnhau bod y deintydd dan sylw bellach wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ar amddiffyn rhag ymbelydredd (IRMER) at AGIC.*** | Mae'r deintydd wedi cwblhau hyfforddiant IRMER ar-lein | Deintydd | Ar unwaith – wedi'i gwblhau |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ***Rhaid i IDH sicrhau bod gan bractisau unigol wybodaeth ynglŷn â chanlyniadau'r archwiliadau diweddaraf ar gyfer yr holl waith cynnal a chadw perthnasol, neu gopïau ohoni.*** | Mae'r rhain wedi cael eu hanfon yn unol â hynny | Rheolwr y Practis Corryne | Wedi'i gwblhau |
| | ***Rhaid cadw meddyginiaeth ar wahân mewn oergell y mae ei thymheredd yn cael ei reoli a'i fonitro.Rhaid datblygu system ar gyfer gwirio meddyginiaeth yn yr oergell er mwyn sicrhau nad yw'n mynd heibio i'w dyddiad dod i ben.*** | Nid oes dim meddyginiaeth y dylid ei storio yn yr oergell (mae cyfnod dyddiad Glwcagon wedi cael ei fyrhau)<br>Dylai’r practis sicrhau bod yr holl gyffuriau'n cael eu gwirio bob mis i sicrhau nad oes unrhyw feddyginiaeth wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben a bod hyn yn cael ei gofnodi. | Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | ***Dylai'r practis wneud gwell defnydd o'r hysbysfwrdd y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, a'i ddefnyddio er mwyn arddangos gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol i gleifion, fel polisïau a gweithdrefnau perthnasol a gwybodaeth arall.*** | Mae'r hysbysfwrdd wedi cael ei ddiweddaru gyda'r holl bosteri cyfredol ac mae'r pennawd MY DENTIST yn amlwg arno | Rheolwr y Practis Corryne | Wedi'i gwblhau |

**Cynrychiolydd y Practis:** **Diweddarwyd 2/11/15 – Jennifer Binks Rheolwr Practis**

**Diweddariadau 3/11/2015 Tara Morris Rheolwr Datblygu'r Ardal**

**Enw (llythrennau bras): ...............Corryne Harris....................................**

**Teitl: .................Rheolwr y Practis................................**

**Llofnod: ..................C Harris ..........................................**